# Agenda - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwygio@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat (09.00-09.30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog

(09.30-11.30) (Tudalennau 1 - 34)

Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Will Whiteley, Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwygio'r Senedd, Llywodraeth Cymru

Anna Hind, Uwch-gyfreithiwr, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru

Tom Jackson, Rheolwr Bil, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), Llywodraeth Cymru

**Dogfen ategol**

Briff ymchwil

## 3 Papurau i'w nodi

(11.30)

### 3.1 Llythyr at y Comisiynydd Safonau ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 24 Tachwedd 2023

(Tudalennau 35 - 36)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

3.2 **Ymateb gan y Comisiynydd Safonau ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 4 Rhagfyr 2023 [Saesneg yn unig]**

(Tudalennau 37 - 39)

3.3 **Ymateb gan y Prif Weinidog ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 29 Tachwedd 2023**

(Tudalennau 40 - 41)

3.4 **Ymateb gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 1 Rhagfyr 2023**

(Tudalennau 42 - 44)

3.5 **Ymateb gan y Llywydd ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 1 Rhagfyr 2023**

(Tudalennau 45 - 48)

3.6 **Llythyr at Gomisiwn y Senedd ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r ddarpariaeth swyddfeydd etholaethol - 1 Rhagfyr 2023**

(Tudalen 49)

3.7 **Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 22 Tachwedd 2023**

(Tudalennau 50 - 51)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, ac o'r cyfarfod ar 10 Ionawr 2024

(11.30)

## 5 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): trafod y dystiolaeth a'r materion allweddol

(11.30-12.30) (Tudalennau 52 - 91)

**Dogfennau ategol**

Papur 1 Materion allweddol [Saesneg yn unig]

Papur 2 Gwybodaeth gefndir ychwanegol

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**

**—**

**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Douglas Bain
Y Comisiynydd Safonau

24 Tachwedd 2023

Annwyl Douglas

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): adalw Aelodau o'r Senedd

Fel y gwyddoch, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ffurfiol i'r Senedd ar 18 Medi 2023. Rôl y Pwyllgor Biliau Diwygio yw cynnal gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Ar hyn o bryd rydym yn casglu tystiolaeth i lywio ein casgliadau ac unrhyw argymhellion yr hoffem eu gwneud. Un mater sy'n dod i'r amlwg o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed, ond nad yw'n cael sylw yn y Bil fel y'i cyflwynwyd, yw'r cwestiwn ynghylch a ddylai fod mecanwaith lle byddai Aelodau o'r Senedd yn gallu cael eu hadalw gan eu hetholwyr.

Mae mecanweithiau adalw yn gymharol brin mewn perthynas â deddfwrfeydd, er bod Deddf Adalw Aelodau Seneddol y DU 2015 wedi cyflwyno mecanwaith ar gyfer adalw ASau. Mae Deddf 2015 yn darparu os caiff un o'r amodau ei fodloni, rhaid i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin hysbysu'r swyddog canlyniadau/deisebau yn etholaeth yr Aelod Seneddol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Mae yna gyfnod o chwe wythnos yn dilyn hynny pan gaiff pleidleiswyr cofrestredig cymwys lofnodi'r ddeiseb adalw. Os bydd o leiaf 10 y cant o'r pleidleiswyr cofrestredig cymwys yn gwneud hynny, yna bydd sedd yr AS yn wag, a bydd y confensiynau arferol ar gyfer llenwi sedd wag yn berthnasol. Hyd yma, mae pedair deiseb adalw wedi cael eu cynnal, ac mae nifer o ASau sydd wedi bodloni'r amodau ar gyfer cynnal deiseb wedi dewis ymddiswyddo o'u seddi cyn y gellid agor deiseb.

Mae ASA, fel rhan o ddatblygiad Bil Aelod posibl, wedi ymgynghori ar sut y gellid datblygu mecanwaith adalw o fewn System Aelodau Ychwanegol Senedd yr Alban. Cynigiodd yr ASA y byddai Aelod o Senedd yr Alban yn cael ei adalw pe bai'n cael ei wahardd am 10 diwrnod eistedd neu fwy o



Senedd Cymru
Welsh Parliament

ganlyniad i dorri'r cod ymddygiad, neu os caiff yr Aelod ddirwy, o ganlyniad i achos llys, o unrhyw swm hyd at uchafswm y ddirwy ar lefel 5 o'r raddfa safonol.

Mae nifer o systemau eisoes ar waith yn y Senedd y gellir eu defnyddio i wneud y canlynol o ran yr Aelodau:

- **Anghymhwyso**, er enghraifft, os ydynt yn bodloni un o'r amodau neu'n cael eu penodi i un o'r swyddi anghymwys yn adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, neu Atodlen 1A iddi, neu os ydynt yn dod yn Aelod o un o ddeddfwrfeydd eraill y DU (yn ddarostyngedig i amodau penodol).

- **Sancsiynu**, o ganlyniad i fethu â bodloni'r safonau a nodir yn y Cod Ymddygiad. Efallai na fydd sancsiynau o'r fath yn cynnwys diswyddo. Gallant gynnwys ceryddu, gwahardd yr Aelod o drafodion y Senedd, neu dynnu hawliau a breintiau penodol yn ôl. Mae penderfyniad ar unrhyw gosb o'r fath yn fater i'r Senedd ar sail adroddiad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor hwnnw o adroddiad gan y Comisiynydd Safonau ar ei ymchwiliad i gŵyn dderbyniadwy.

Pe bai mecanwaith adalw yn cael ei gyflwyno, byddai'n rhan o'r ystod o fesurau ar gyfer atebolrwydd Aelodau unigol o'r Senedd. Felly, byddem yn croesawu eich barn chi, fel Comisiynydd Safonau, ar y canlynol:

1. A ydych yn meddwl y byddai'n briodol cael mecanwaith ar gyfer adalw Aelodau o'r Senedd.

2. Pe bai mecanwaith o'r fath, a oes gennych farn ar ba amodau y dylid eu gwneud yn ofynnol er mwyn sbarduno adalw?

3. Unrhyw fater arall sy'n ymwneud naill ai ag adalw Aelodau o'r Senedd, neu Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn fwy cyffredinol.

Byddem yn croesawu ymateb ysgrifenedig erbyn **dydd Iau 7 Rhagfyr 2023.**

Yn gywir

David F. Rees.

**David Rees AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio**

cc Vikki Howells AS, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 3.2

COMISIYNYDD SAFONAU
STANDARDS COMMISSIONER

David Rees MS

Chair, Reform Bill Committee

4 December 2023

Dear Chair,

**Senedd Cymru (Members and Elections) Bill: recall of Members of the Senedd**

Thank you for your letter of 24 November affording me the opportunity to comment on the possible inclusion in the Bill of a recall mechanism and for the three questions you have posed in relation to it.

Whilst as Commissioner for Standards I welcome any measure that would increase the accountability of Members I am not sighted on what other options the Committee has considered to achieve that end. The main weaknesses in the present Senedd systems for oversight of a Member's conduct would seem to me to be the absence of any way to remove from office a Member –

1. who has been convicted of a serious offence but sentenced to imprisonment for a period of one year or less; or

2. who has simply stopped carrying out the duties of a Member for a prescribed period.

Whilst the introduction of a recall mechanism similar to the one in place in the House of Commons has superficial attraction there would be potential difficulties. Under the Commons process the Member who is the subject of a successful recall petition is able to stand at the forthcoming by-election. Assuming Clause 9 of the Bill is enacted in its present form, there will be no by-elections in Wales. That would mean that 10% of the eligible electorate would be able to remove a Member from office. And where the Member was an independent, it would mean that the electorate would be represented by one fewer Member than previously until the next election which could be several years away.

Y Pierhead
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0300 200 6542
E-bost: Comisiynydd.Safonau@senedd.cymru
---
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Pierhead
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA
Tel: 0300 200 6542
E-mail: Standards.Commissioner@senedd.wales
---
We welcome correspondence in both English and Welsh

Alternative ways of dealing with the first weakness identified might be to amend paragraph 6(1) of Schedule 1A to the |Government of Wales Act 2006 Act to provide that a lesser, or perhaps any, sentence of imprisonment would result in automatic disqualification.

Dealing with the second perceived weakness would be more difficult. Although paragraph 7 of the Code of Conduct does not apply *"(iii) in relation to the standard of service and outcomes received from a Member"* I am satisfied that a total failure by a Member to carry out the duties of a Member could amount to a breach of Rule 1 of the Code (Duty to uphold the Overarching Principles) and that it could be dealt with in the same way as any other complaint against a Member. If the Standards of Conduct Committee was satisfied that a breach had occurred it would be open to it, under SO 22.10(iii) to recommend to the Senedd a sanction which could include withdrawal of rights and privileges and exclusion for a specified period. There is no prescribed maximum period for these sanctions.

That approach would go some way to deal with the second issue but it would mean that the Member remained in office and the constituents were deprived of at least part of the representation that should be available to them. Whilst it might be possible to amend SO 22 to include a new sanction of removal from office, I suspect that such a change would require primary legislation. The Committee would have to consider the need to guard against the risk of the majority party abusing the process to remove opposition Members. One option could be a provision that a motion to remove could only be carried if at least a prescribed percentage of Members voted for it. There is precedent for such a provision. The Committee will be aware that section 1(7) of the National Assembly for Wales Commissioner for Standards Measure 2009 provides that a resolution to remove the Commissioner from office is passed only if *"the number of votes in favour of the resolution is not less than two thirds of the number of votes cast."*

**Whether you think it would be appropriate for there to be a recall mechanism for Members of the Senedd?**

For the reasons set out above, I have serious concerns about the inclusion in the Bill of a recall mechanism similar to the one in Recall of MP's Act 2015.


**If there were to be such a mechanism, do you have a view on what conditions should be required to be met in order to trigger a recall?**

I do not favour any recall mechanism.  If it is decided to include one in the Bill, it would be possible to set out criteria such as having taken part in proceedings on ‘x’ occasions during the previous ‘Y’ months.  However, I believe that doing so would be likely to result in an inflexible approach which might well not cover every situation.  I believe that a better approach would be to leave it to the Standards of Conduct Committee to recommend to the Senedd, on a case-by-case basis, whether the Member’s established misconduct was sufficiently serious to justify a recall petition.

**Any other matter relating to either recall for Members of the Senedd, or the Senedd Cymru (Members and Elections) Bill more generally.**

There is nothing I wish to add.

Yours sincerely,



**Douglas Bain CBE TD**

**Y Comisiynydd Safonau/Standards Commissioner**

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

29 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeirydd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd ynglŷn â'r craffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Rwy'n ddiolchgar i Bwyllgor y Biliau Diwygio am ei ystyriaeth fanwl o'r ddeddfwriaeth bwysig hon, ac o Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) sydd ar ddod.

Rwyf wedi cael cyfle i drafod eich llythyr gydag Arweinydd Plaid Cymru ac rwy'n ymateb ar ran y ddau ohonom.

O ran eich cais i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, fel y byddwch yn gwerthfawrogi, mae'r adeg hon o'r flwyddyn yn gyfnod arbennig o brysur. Felly, o ganlyniad i ymrwymiadau sydd eisoes yn y dyddiadur, ynghyd â'r her ychwanegol o geisio cydlynu amser pryd y gallwn i ac Arweinydd Plaid Cymru fod yn bresennol ar fyr rybudd i roi tystiolaeth lafar, mae arnaf ofn na allwn dderbyn eich gwahoddiad. Fodd bynnag, hyderwn fod y cyflwyniad ysgrifenedig hwn yn darparu ymateb i'r meysydd a godwyd gennych yn eich llythyr. Byddwch yn ymwybodol y byddwn yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 8 Rhagfyr i drafod materion sy'n ymwneud â'r Cytundeb Cydweithio, y mae diwygio'r Senedd yn rhan allweddol ohono.

Gan droi at y cwestiynau a godwyd gennych:

1. **A ydych yn parhau i fod yn hyderus y bydd uwch-fwyafrif yn y Senedd o blaid y cynigion yn y Bil, gan gynnwys y system etholiadol rhestr gaeedig arfaethedig.**

Rydym yn parhau i fod yn hyderus y bydd y cynigion yn y Bil, sydd, i bob pwrpas, yn rhoi effaith i argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd yn ennyn cefnogaeth uwchfwyafrif yn y Senedd. Fel y gwyddoch, yn unol â'i gylch gwaith, dim ond argymhellion a oedd yn cael eu cefnogi gan uwchfwyafrif y caniatawyd i'r Pwyllgor Diben Arbennig eu gwneud i'r Senedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**2. A ydych wedi ystyried y posibilrwydd y gallai cynigion amgen ddenu uwch-fwyafrif pe bai'r Senedd yn penderfynu diwygio un neu fwy o'r trefniadau etholiadol yn y Bil.**

Ers i'r Pwyllgor Diben Arbennig gyhoeddi ei adroddiad, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar weithio i sicrhau yr eir ati'n llwyddiannus i drosglwyddo'r argymhellion yn ddeddfwriaeth o fewn 12-18 mis i'r dyddiad y cyflwynodd y Pwyllgor ei adroddiad, yn unol ag ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio er mwyn gallu cwblhau'r gwaith o ddiwygio'r Senedd erbyn 2026. Sicrhau bod yr amserlen uchelgeisiol hon yn cael ei bodloni yw ein prif flaenoriaeth o hyd. Cafodd argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig eu cymeradwyo gan fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Senedd ar 8 Mehefin 2022. Y gymeradwyaeth hon, a'r ymateb dilynol gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i'r perwyl hwnnw, yw'r sylfaen ar gyfer y darpariaethau ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Rydym, wrth gwrs, yn agored i ganfyddiadau eich pwyllgor, yn ogystal â'r pwyllgorau eraill sydd wedi bod yn rhan o'r trefniadau craffu ar y Bil. Fel rhan o'i drafodaethau, bydd y Pwyllgor, rwy'n siŵr, yn ystyried a oes cynigion eraill a fydd yn golygu bod modd i'r Bil gael ei basio gan uwchfwyafrif.

Rhaid imi fod yn gwbl glir, fodd bynnag, fod y Bil yn cynrychioli pecyn o fesurau sydd wedi'u pwyso a'u mesur yn ofalus. Ni ellir ystyried newid unrhyw un elfen yn y Bil yn annibynnol ar y gweddill, oherwydd bydd newidiadau i un elfen yn newid natur y cynigion o'u hystyried fel un pecyn yn ei gyfanrwydd.

**3. Hefyd, byddai gennym ddiddordeb mewn trafod â chi'r dystiolaeth a'r rhesymeg a arweiniodd y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd at y casgliadau a nodir yn y Datganiad Sefyllfa ar y Cyd.**

Fel y nododd y Cwnsler Cyffredinol yn ei lythyr atoch ar 8 Tachwedd, roedd y Datganiad Sefyllfa ar y Cyd yn ystyried yr amrediad o dystiolaeth a gasglwyd dros yr ugain mlynedd diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau'r Comisiwn Richard, y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Trefniadau Etholiadol y Cynulliad a'r Pwyllgor ar Ddiwygio Trefniadau Etholiadol y Senedd. Roedd y Datganiad hefyd yn ystyried y cynigion a basiwyd gan Gynhadledd Llafur Cymru a Chynhadledd Plaid Cymru yng ngwanwyn 2022 a phrosesau democrataidd cysylltiedig y ddwy blaid.

Hyderwn fod yr ymateb hwn o gymorth i'ch pwyllgor wrth iddo barhau i graffu ar y Bil ac edrychwn ymlaen at ystyried eich adroddiad maes o law.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Rhun ap Iorwerth, Arweinydd Plaid Cymru ac at Adam Price, fel cyn-Arweinydd Plaid Cymru.

Dymuniadau gorau

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/413/2023
Ein cyf/Our ref CG/PO/413/2023

1af Rhagfyr 2023

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd 2023 ynglŷn â gweithredu Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Yn eich gohebiaeth, gwnaethoch ofyn am drosolwg o'r llinell amser ddisgwyliedig ar gyfer gweithredu'r diwygiadau etholiadol cyn etholiad 2026, gan gynnwys amserlenni sy'n gysylltiedig â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau"). Gwnaethoch hefyd ofyn imi roi syniad o natur a maint y newidiadau yr oeddwn yn rhag-weld y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cynnig mewn ymgynghoriad ar y Gorchymyn Cynnal Etholiadau.

Fel y gwyddoch, mae'r Senedd wrthi'n craffu ar ddau Fil sy'n ymwneud â diwygio etholiadol (Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)).

Ni fydd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn"), fel y bydd bellach yn cael ei alw, y swyddogaeth gyfreithiol i ddechrau a chynnal adolygiad o ffiniau'r Senedd nes bydd y ddarpariaeth sy'n rhoi'r swyddogaeth honno yn cael ei chychwyn y diwrnod ar ôl i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) gael y Cydsyniad Brenhinol. Fel y nodwyd yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Biliau Diwygio, rhagwelir y bydd y Comisiwn yn dechrau paru'r 32 o etholaethau Senedd y DU ym mis Awst 2024. Mae'r Bil yn darparu y bydd adroddiad terfynol y Comisiwn ar baru'r etholaethau yn cael ei gwblhau erbyn 1 Ebrill 2025. Bydd hyn wedyn yn galluogi'r Offeryn Statudol i weithredu'r 16 o etholaethau'r Senedd i gael ei ddrafftio a'i wneud gan Weinidogion Cymru.

Ochr yn ochr â gwaith y Comisiwn, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar fersiwn ddrafft o Orchymyn Cynnal Etholiadau dwyieithog wedi'i gydgrynhoi. Bydd hyn yn cyd-fynd â'n huchelgais i gydgrynhoi'r llyfr statud ar gyfer Cymru lle gallwn, i ddarparu fframwaith deddfwriaethol hygyrch a dwyieithog. Rydym yn bwriadu cymryd camau i gydgrynhoi'r gyfraith etholiadol yng Nghymru ar gyfer etholiadau datganoledig, fel rhan o'n nod tymor hwy o foderneiddio cyfraith etholiadol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Mae'r Gorchymyn Cynnal Etholiadau yn nodi'r rheolau manwl ar gyfer cynnal etholiadau Senedd Cymru. Mae’n nodi’r ffordd i gynnal yr etholiad a’r ymgyrch etholiadol, gan gynnwys darpariaethau ar gyfer herio’r etholiad yn gyfreithiol. Mae’r Gorchymyn Cynnal Etholiadau wedi cael ei adolygu a’i ddiwygio yn flaenorol cyn pob etholiad i’r Senedd.

Cafodd y Gorchymyn ei wneud yn wreiddiol a’i ddiwygio wedyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn i’r swyddogaeth o wneud y Gorchymyn gael ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf Cymru 2017 (a ddiwygiodd adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Gan fod y Gorchymyn gwreiddiol wedi’i wneud yn 2007, mae hwn yn gyfle gwerthfawr inni gydgrynhoi ac ailddatgan y gyfraith fel rhan o fframwaith hygyrch a dwyieithog am y tro cyntaf.

Wrth wneud hynny, byddwn yn ystyried yr egwyddorion sydd wedi’u nodi yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ac yn ceisio llunio Gorchymyn gan ddefnyddio iaith fodern a chlir sy'n ddealladwy i’r darllenydd. Bydd hyn yn cynnwys, fel y nodwyd gennych, newidiadau i ddyluniad papurau pleidleisio, yn sgil y newid i un system ethol ar gyfer pob Aelod.

Cyn etholiad cyffredinol y Senedd yn 2026, bydd y Comisiwn Etholiadol yn datblygu ac yn cyhoeddi canllawiau yn ymwneud â gweinyddu etholiadau. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cyflenwi i sicrhau bod y gwaith o fabwysiadu'r gwahanol brosesau gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â'r etholiad yn mynd rhagddo'n esmwyth. Yn ogystal â'r is-ddeddfwriaeth arferol sy'n rhagflaenu etholiadau'r Senedd, gan gynnwys y Gorchymyn Anghymhwyso a'r Gorchymyn Taliadau Swyddogion Canlyniadau, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r system etholiadol newydd.

Dyma ddiagram sy'n dangos yr amserlenni ar gyfer y prosesau hyn.



Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Biliau Diwygio

01 Rhagfyr 2023

Annwyl David,

**Sesiwn dystiolaeth ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Diolch am y cyfle i ddod i gyfarfod eich Pwyllgor ar 26 Hydref 2023.

Yn ystod y cyfarfod, cytunais i ddarparu rhagor o wybodaeth am ddau bwynt:

- Esboniad o'r gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrifon cost a gyflwynir yn Atodiad F i adroddiad 2017 y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, *Senedd sy'n gweithio i Gymru*, a'r amcangyfrifon cost a gyflwynir yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau); a
- manylion penodiadau cyhoeddus y Senedd, a allai gael eu heffeithio pe bai'r Senedd – fel a gynigiwyd – yn dychwelyd i dymhorau pedair blynedd.

Mae'r wybodaeth bellach hon wedi'i hamgáu gyda'r llythyr hwn.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd

# Rhagor o wybodaeth yn dilyn ymddangosiad y Llywydd, a'r Prif Weithredwr a'r Clerc gerbron y Pwyllgor Biliau Diwygio ar 26 Hydref 2023

Y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad: amcangyfrif o gostau Aelodau ychwanegol

## Cyd-destun

Comisiynwyd adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad ("y Panel Arbenigol") yn 2016 a chafodd yr amcangyfrifon cost a gynhwyswyd ynddo eu cwblhau gan Gomisiwn y Cynulliad ar y pryd yn hanner cyntaf tymor yr hydref 2017.

Roedd y Llywydd, a'r Prif Weithredwr a'r Clerc presennol yn eu swyddi ar adeg cyhoeddi adroddiad y Panel Arbenigol ar 12 Rhagfyr 2017, gyda'r olaf o'r ddwy wedi ymuno â'r sefydliad ym mis Ebrill y flwyddyn honno.

Cyflwynwyd yr amcangyfrifon cost yn Atodiad F i adroddiad y Panel Arbenigol ac roeddent yn seiliedig ar senarios a ddatblygwyd gyntaf yn 2015 pan gynyddodd maint y Senedd gan 20 neu 30 Aelod.

## Cymharu'r amcangyfrifon costau

Paratowyd yr amcangyfrifon costau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Panel Arbenigol ar sail wahanol i'r amcangyfrifon costau a baratowyd ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ("y Bil"), ac at ddiben gwahanol, ac fe'u cyflwynir yn wahanol.

Fel y nodwyd yn adroddiad y Panel Arbenigol, mae costau amcangyfrifedig 2017 yn darparu " [...] *dangosyddion o faint y gost yn hytrach na rhagfynegiadau manwl gywir*" yn seiliedig ar gynnydd posibl yn nifer yr Aelodau, tra bod yr amcangyfrifon costau a baratowyd ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynrychioli'r amcangyfrif gorau o'r costau sy'n deillio o'r cynigion deddfwriaethol penodol a ddarperir yn y Bil a thybiaethau sylfaenol manylach.

Cyflwynwyd y costau i'r Panel Arbenigol gyda'r un cafeatau ag sydd ynghlwm wrth yr amcangyfrifon gorau cyfredol h.y.

> *Rhaid pwyllo wrth ystyried unrhyw amcangyfrif o gost Cynulliad mwy o faint. Bydd y gwir gostau yn dibynnu ar amryw ffactorau, o gyfansoddiad gwleidyddol y sefydliad a phenderfyniadau am drefniadau pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn, i benderfyniadau ymarferol ar staffio a blaenoriaethau Comisiwn y Cynulliad.*
>
> *[Senedd sy'n gweithio i Gymru, Atodiad F, tudalen 243]*

Cynhyrchodd y Comisiwn amcangyfrifon cost ar gyfer y Panel Arbenigol ar sail 20 neu 30 o Aelodau ychwanegol. Mae'r tybiaethau sylfaenol (fel y'u nodir yn Atodiad F i'r adroddiad) yn wahanol i'r rheini sy'n sail i amcangyfrifon yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r ffordd y mae'r Senedd yn gweithredu wedi newid ers 2017, ac mae'r dull o addasu ystâd y Senedd yng Nghaerdydd hefyd wedi newid ers 2017.

Mae llety Aelodau Tŷ Hywel yn enghraifft o'r gwahanol dybiaethau a ddefnyddiwyd. Roedd amcangyfrifon cost 2017 ar gyfer swyddfeydd yr Aelodau ym Mae Caerdydd yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai lle yn Nhŷ Hywel yn cael ei drosi ar gyfer Aelodau, gyda staff y Comisiwn yn cael

eu hadleoli i swyddfeydd allanol i alluogi hyn. Mae'r £1m – £1.65m a amcangyfrifwyd yn 2017 ar gyfer "swyddfeydd Tŷ Hywel" felly'n cynnwys rhentu, gosod offer a symud lle staff y Comisiwn o Dŷ Hywel. Fel y disgrifiwyd gan y Llywydd yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 26 Hydref 2023, mae'r dybiaeth hon wedi newid oherwydd gwahaniaethau mewn ffyrdd o weithio ar ôl y pandemig, gyda symud i leoliad allanol ychwanegol nad oes ei angen, bellach, oherwydd cyfraddau defnydd is yn Nhŷ Hywel.

Penodiadau cyhoeddus y Senedd a allai gael eu heffeithio gan y newid yn hyd tymhorau'r Senedd.

Mae rhestr isod o benodiadau cyhoeddus a wnaed gan y Senedd, Comisiwn y Senedd, neu Ei Fawrhydi ar enwebiad y Senedd, y gallai'r Pwyllgor ddymuno eu hystyried wrth ymchwilio i effaith newid yn hyd tymhorau'r Senedd.

Ni fydd newid hyd tymor Senedd o reidrwydd yn broblematig o ran cyfnodau swydd y penodiadau cyhoeddus a restrir.

Bydd y sbardunau sy'n pennu hyd eu cyfnod mewn swydd mewn deddfwriaeth yn amrywio yn ôl swyddogaethau pob un o'r penodiadau cyhoeddus hyn, a byddant yn rhoi sylw dyledus i'w heffeithiolrwydd. Gall y rhyngweithio rhwng hyd penodiadau cyhoeddus a thymhorau seneddol fod yn ystyriaeth o safbwynt gweinyddu penodiadau a chanfyddiadau o annibyniaeth deiliaid swyddi statudol, a'u gallu i weithredu heb ofn na ffafraeth. At hynny, mae dwy o'r categorïau swyddi yn ymwneud yn benodol ag Aelodau o'r Senedd, sef y Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Rydym, felly, wedi tynnu sylw'r Pwyllgor at hyn fel mater y gallai ddymuno ei ystyried.

**1.** Archwilydd Cyffredinol Cymru

Gall unigolyn ddal y swydd am uchafswm o wyth mlynedd. Os daw'r swydd yn wag, gellir gwneud dynodiad dros dro yn lle'r Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol presennol wedi bod yn ei swydd ers 21 Gorffennaf 2018.

**2.** Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru

Penodir aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru gan y Senedd, am gyfnod nad yw'n hwy na phedair blynedd, ac uchafswm o ddau dymor. Penodir Cadeirydd gan y Senedd o blith yr aelodau anweithredol.

**3.** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cael ei benodi am dymor o saith mlynedd. Gall Ei Fawrhydi benodi Ombwdsmon dros dro os daw'r swydd yn wag am unrhyw reswm. Dechreuodd Ombwdsmon presennol Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei swydd ar 1 Ebrill 2022.

**4.** Y Comisiynydd Safonau

Mae Comisiynydd Safonau'r Senedd yn cael ei benodi am dymor o chwe mlynedd. Penodwyd y Comisiynydd presennol am y tymor ar 1 Ebrill 2021.

## 5. Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Penodir aelodau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol ("y Bwrdd") am gyfnod penodol o bum mlynedd, a gall wasanaethu am uchafswm o ddau dymor. Mae Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd wneud penderfyniad ar gyflogau Aelodau a Deiliaid Swyddi ar gyfer pob tymor o'r Senedd, a chyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gwneud y penderfyniadau hyn cyn diwedd tymor y Senedd sy'n rhagflaenu. Dechreuodd tymor y Bwrdd presennol ym mis Medi 2020. Ym mis Medi 2025 – saith mis cyn yr etholiad – bydd angen penodi o leiaf ddau aelod newydd i'r Bwrdd, oherwydd bod cyfnod dau aelod presennol yn agosáu at ddau dymor, sef yr uchafswm.

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Y Llywydd
Cadeirydd, Comisiwn y Senedd

1 Rhagfyr 2023

Annwyl Lywydd,

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): darpariaeth swyddfeydd etholaethol**

Yn ystod ein cyfarfod ddydd Iau 30 Tachwedd 2023, buom yn trafod â Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd y cymorth y gallai fod ei angen ar Aelodau'r Seithfed Senedd ac ar ôl hynny pe bai'r Bil yn dod yn gyfraith.

Un o'r materion a drafodwyd gennym oedd darpariaeth swyddfeydd etholaethol, gan gynnwys y cynnig a wnaed gan Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol y dylid ystyried sefydlu 16 o swyddfeydd etholaethol parhaol—un ym mhob un o etholaethau newydd y Senedd—y gallai Aelodau, staff cymorth a staff y Comisiwn weithredu ohonynt.

Rydym yn deall o'r dystiolaeth a roddwyd gan Gadeirydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol, er yr ystyriwyd cynnig tebyg yn y gorffennol, penderfynodd Comisiwn y Senedd beidio â mynd ar drywydd y cynnig hwnnw.

Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch y pwynt hwn. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb erbyn **dydd Mawrth 11 Rhagfyr 2023**.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Y Comisiwn Etholiadol

The Electoral Commission

# Gwybodaeth bellach i gefnogi gwaith craffu'r Pwyllgor Biliau Diwygio o'r Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

*Rhagfyr 2023*

Yn ein sesiwn dystiolaeth ar y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ddydd Mercher 22 Tachwedd, ymrwymom i anfon wybodaeth bellach am:

a) sut mae'r system adalw yn gweithio ar lefel San Steffan

b) cofrestru i bleidleisio o ail gartref

Nodir hyn isod. Gobeithiwn fod hyn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor – rhowch wybod os hoffech wybodaeth bellach ar unrhyw beth.

## Proses adalw San Steffan

Ers Deddf Adalw ASau 2015 mae pum deiseb adalw wedi'u cynnal yn y DU, gan gynnwys yr un sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn Wellingborough. Mae deiseb adalw yn cael ei chynnal os yw AS:

- Wedi cael ei euogfarnu o drosedd yn y DU ac wedi cael dedfryd o garchar (yn cynnwys dedfryd wedi'i hatal) neu wedi'i orchymyn i gael ei gadw yn y ddalfa, heblaw o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl yn unig.
- Wedi cael ei wahardd o Dŷ'r Cyffredin am 10 diwrnod eistedd neu 14 o ddiwrnodau calendr.
- Wedi cael ei euogfarnu o ddarparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar gyfer hawliadau lwfans o dan Ddeddf Safonau Seneddol 2009.

Bydd gan bleidleiswyr yn yr etholaeth berthnasol chwe wythnos i lofnodi'r ddeiseb. Os bydd o leiaf 10% o bleidleiswyr yn yr etholaeth yn llofnodi'r ddeiseb, bydd yr AS yn colli ei sedd a chaiff is-etholiad ei gychwyn. Gall yr AS a gafodd ei adalw sefyll fel ymgeisydd yn yr is-etholiad.

Rydym wedi cynhyrchu sawl adroddiad ar y deisebau adalw sydd wedi'u cynnal ers i'r Ddeddf Adalw ASau ddod i rym. Yn ein hadroddiad diweddaraf, sy'n ymdrin â deiseb adalw Rutherglen a Gorllewin Hamilton 2023, gwnaethom ailadrodd ein hargymhellion allweddol ar gyfer Llywodraeth y DU wrth symud ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Nodi'r hyd priodol ar gyfer cyfnod deiseb sy'n llai na chwe wythnos – rydym yn parhau i ganfod bod y rhan fwyaf o bobl sydd am lofnodi deiseb adalw yn gwneud hynny o fewn pythefnos cyntaf y cyfnod llofnodi.

- Adolygu pwy all arsylwi ar y broses mewn mannau llofnodi i ymestyn tryloywder a chraffu, wrth sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal i bobl sy'n llofnodi'r ddeiseb.
- Ystyried a ddylid rhoi cyfle i etholwyr cymwys gwblhau cyfwerth â'r daflen lofnodi i nodi eu bod yn gwrthwynebu'r ddeiseb.
- Nodi yn gliriach pa amser y dylai mannau llofnodi gau ar ddiwrnod olaf cyfnod y ddeiseb, y dyddiad cau ar gyfer derbyn papurau llofnodi post, a phryd a sut y dylid hysbysu Llefarydd Tŷ'r Cyffredin o ganlyniad y ddeiseb.
- Cadw'r rheolau ar gyfer rhoddion a gwariant gan ymgyrchwyr dan adolygiad wrth i fwy o brofiad gael ei ennill mewn deisebau adalw yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth a rheoliad priodol o wariant ymgyrchwyr.

Gwnaethom hefyd argymhellion ar gyfer Swyddogion Deiseb a Swyddogion Canlyniadau:

- Dylai Swyddogion Canlyniadau barhau i adolygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer unrhyw ddeisebau adalw posibl yn eu hetholaeth, gan gynnwys nodi lleoliadau posibl ar gyfer mannau llofnodi.
- Dylai Swyddogion Deiseb sicrhau eu bod yn cynnig rhai oriau agor estynedig i bobl lofnodi'r ddeiseb, y tu hwnt i'r oriau o 9am i 5pm.

Mae'r rhain i gyd yn faterion y bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r Senedd eu hystyried os bwriedir cynnwys darpariaethau adalw yn y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ddiweddarach.

Yn ogystal â'r adroddiad ar ddeiseb adalw Rutherglen a Gorllewin Hamilton, mae ein hadroddiadau eraill ar ddeisebau adalw blaenorol San Steffan ar gael yma:

- Cynhaliwyd deisebau adalw 2019 yn Peterborough ac Aberhonddu a Sir Faesyfed.
- Deiseb adalw 2018 yng Ngogledd Antrim

**Cofrestru i bleidleisio o ail gartref – canllawiau'r Comisiwn Etholiadol**

Fel y nodwyd gennym yn ystod y sesiwn dystiolaeth, byddai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol yn edrych ar geisiadau i gofrestru o ail gartref fesul achos, a byddai'n dibynnu ar faint o amser a dreulir ym mhob cyfeiriad. Os yw person wedi'i gofrestru'n gywir, hyd yn oed mewn ail gyfeiriad, o dan ddarpariaethau'r Bil, ni fyddai'n cael ei anghymhwyso rhag sefyll mewn etholiad y Senedd a gwasanaethu fel Aelod o'r Senedd.

Mae ein canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar y mater hwn ar gael yma. Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth gyffredinol i bleidleiswyr ar gofrestru i bleidleisio ac ail gartrefi. Y darpariaethau deddfwriaethol perthnasol sy'n sail i'r canllawiau hyn yw Adrannau 4 a 5 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) iv o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon